

TAFLEN WYBODAETH I GYFRANOGWYR I ddefnyddwyr gwasanaethau/defnyddwyr posibl gwasanaethau



Deall Effaith Ymgynoriadau o Bell Mewn Gwasanaethau Iechyd Rhywiol ac
Atgenedlol ar Anghydraddoldebau Iechyd

Helpwch Ni i Wella Gwasanaethau Atal Cenhedlu ac Iechyd Rhywiol!

Ym Mhrifysgol Birmingham, rydym yn gwneud ymchwil i ganfod beth yw barn
pobl am wasanaethau atal cenhedlu ac iechyd rhywiol.

Os gallwch chi gymryd rhan, bydd eich ymateb yn cael ei drin yn gyfrinachol.
Cymerwch amser i ddarllen y daflen wybodaeth yma yn ofalus.

CYNNWYS

Mae **RHAN UN** o'r daflen wybodaeth yn sôn am y rhesymau dros yr astudiaeth,
beth fydd yn digwydd i chi os byddwch yn cymryd rhan, a beth yw'r manteision.

Mae **RHAN DAU** yn rhoi gwybodaeth fanylach am sut mae'r astudiaeth yn cael
ei rhedeg a sut bydd eich data'n cael ei ddefnyddio.

[RHAN UN](#)

Beth yw'r Astudiaeth Connect?

Arweiniodd pandemig COVID-19 at symud yn gyflym o ymgynoriadau wyneb
yn wyneb ar gyfer gwasanaethau atal cenhedlu ac iechyd rhywiol i
ymgynoriadau o bell (ffôn, fideo, ar-lein neu destun).

Bydd yr astudiaeth ymchwil yma yn gofyn beth yw barn y cleifion a'r staff am y newidiadau hyn, gweld a ydy'r newidiadau wedi creu unrhyw anghydraddoldebau iechyd, ac yn edrych ar y ffordd orau o ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Bydd yr anghydraddoldebau iechyd y byddwn yn edrych arny'n nhw yn yr ymchwil yma yn cynnwys ymchwilio i weld a oes gwahaniaethau mewn iechyd a gofal iechyd rhwng grwpiau o bobl o ran mynediad at ddulliau atal cenhedlu a gwasanaethau rhywiol, pa mor gyflym mae triniaeth yn cael ei rhoi ac a oes triniaeth effeithiol yn cael ei rhoi.

Pam mae fy marn i yn bwysig?

Rydyn ni eisiau gwybod am eich profiadau chi o gael apwyntiad, neu geisio gwneud apwyntiad, gyda gwasanaethau atal cenhedlu ac iechyd rhywiol. Er enghraifft, byddwn yn gofyn eich barn am wahanol ffyrdd o gael ymgynghoriad e.e. wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein. Bydd eich atebion yn ein helpu i wirio ein bod yn darparu'r mathau cywir o ofal a chymorth.

Pwy sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth?

Rydym yn gofyn i bob claf a oes ganddyn nhw ddiddordeb i gymryd rhan mewn cyfweliad un i un. Rydym yn bwriadu cynnal cyfanswm o ryw 60 o gyfweliadau. Os penderfynwch chi beidio â chymryd rhan yn yr astudiaeth, fydd hynny ddim yn effeithio ar eich gofal mewn unrhyw ffordd.

Sut mae cymryd rhan?

- Gallwch siarad â'ch tîm gofal uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth ac i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan. Byddan nhw'n gofyn ichi roi'ch cydsyniad ar lafar i'ch manylion gael eu rhoi i ymchwilydd yr astudiaeth.
- Fel arall, llenwch y ffurflen mynegi diddordeb '*Mae ddiddordeb gen i mewn cymryd rhan yn Astudiaeth CONNECT!*' a'i rhoi yn y blwch diogel CONNECT dan glo yn y ganolfan. Mae'r ffurflen yn gofyn am eich enw a'ch manylion cyswllt ac yn cofnodi eich cydsyniad i'r ymchwilwyr gysylltu â chi.
- Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan i gael dolenni i gymryd rhan.
- Neu cysylltwch â'n hymchwilydd yn uniongyrchol (gwybodaeth ar ddiwedd

y daflen hon).

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cymryd rhan?

Bydd un o'n hymchwilyr yn cysylltu â chi i'ch atgoffa am nodau'r astudiaeth ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Os ydych chi'n credu yr hoffech chi gymryd rhan, gofynnir ichi roi eich cydsyniad gwybodus – mae modd llenwi'r ffurflen ar-lein, ar bapur neu dros y ffôn.

Yna byddwn yn gofyn ichi lenwi *Holiadur Sgrinio* er mwyn casglu rhywfaint o wybodaeth gefndir. Mae modd gwneud hyn hefyd ar-lein, ar bapur neu dros y ffôn. Mae'r holl gwestiynau'n *ddewisol* a gallwch ddewis pa gwestiynau i'w hateb ac a fyddai'n well gennych beidio â'u hateb. Does dim angen ichi roi rheswm dros hepgor unrhyw gwestiynau.

Y nod yw cyf-weld â phobl sydd ag ystod mor eang o nodweddion a phrofiadau â phosibl. Mae hyn yn golygu efallai na fyddwn yn gallu cyf-weld â phawb sy'n mynegi diddordeb. Pan fydd eich holiadur wedi'i lenwi, bydd yr ymchwilydd yn cysylltu i roi gwybod ichi a ydyn ni'n gallu cyf-weld â chi y tro yma ai peidio. Os gallwn eich gwahodd i gyfweiliad, byddwn yn trefnu dyddiad ac amser addas i gyfarfod. Os hoffech siarad â rhywun am eich iechyd rhywiol neu atal cenhedlu, gallwn rannu manylion gwasanaethau lleol a all eich cefnogi.

Bydd yna gyfweiliad un-i-un gydag ymchwilydd. Mae modd cynnal y cyfweiliad yn y ganolfan, ar safle'r Brifysgol, ar-lein, neu dros y ffôn - beth bynnag sydd orau i chi. Fyddwn ni ddim yn gofyn ichi siarad am eich iechyd eich hun. Dim ond am eich barn am gael apwyntiad gyda gwasanaethau atal cenhedlu ac iechyd rhywiol y byddwn ni'n gofyn, ac am eich dewisiadau ar sut y dylid gwneud y rhain. Er mwyn i ni nodi'ch barn, bydd y cyfweiliad yn cymryd hyd at 45 munud. Fyddwch chi ddim yn cael tal am gymryd rhan, ond os byddwch chi'n dod i'r cyfweiliad, fe gewch chi daleb rhoddion o £20 i ddiolch am eich amser.

Beth yw'r anfanteision/risgiau posibl o gymryd rhan?

Mae'r risgiau yn yr astudiaeth yma yn isel, ond efallai y bydd rhai yn teimlo'n anghyffyrddus yn ateb peth o'r holiaduron neu rai o gwestiynau'r cyfweiliad.

Yn y cyfweiliad, byddwn yn gofyn am eich profiadau a'ch barn o gael apwyntiad yn unig a fyddwn ni ddim yn holi am eich iechyd. Yn yr holiadur sgrinio, gofynnir am rywfaint o wybodaeth bersonol, gan gynnwys eich rhywedd, eich grŵp ethnig, ac ychydig o gwestiynau am eich iechyd i sicrhau bod ystod eang o bobl yn cymryd rhan yn yr ymchwil.

Mae holl atebion yr holiadur a'r cyfweiliad yn ddewisol a does dim angen ichi ateb unrhyw gwestiynau rydych chi'n anghyfyrrddus â nhw.

Bydd yr ymchwilyr yn stopio'r cyfweiliad os oes angen a gallan nhw eich rhoi chi mewn cysylltiad â chymorth os oes angen.

Beth yw manteision cymryd rhan?

Bydd yr wybodaeth a gawn ni o'r astudiaeth yn cael ei defnyddio i sicrhau bod gan bobl lais ym mha wasanaethau sy'n cael eu darparu'n lleol. Byddwn ni hefyd yn rhannu'n canfyddiadau gyda'r bobl sy'n rheoli ac yn dylunio gwasanaethau'r GIG er mwyn iddyn nhw sicrhau bod y mathau cywir o ofal a chymorth ar gael.

Ydy'r ffaith fy mod i'n cymryd rhan yn cael ei chadw'n gyfrinachol?

Ydy. Dim ond yr wybodaeth sydd ei hangen arnom ar gyfer yr astudiaeth ymchwil sy'n cael ei defnyddio. Bydd eich enw a'ch manylion cyswllt yn cael eu rhannu gyda'r rhai sydd angen gwybod yn unig (yr ymchwilyr sy'n cynnal yr astudiaeth). Bydd pawb sy'n rhan o'r astudiaeth yn cadw'ch data'n ddiogel. Byddwn hefyd yn dilyn rheolau preifatrwydd. Ar ddiwedd yr astudiaeth, byddwn yn cadw rhywfaint o'r data a gellir defnyddio hwnnw ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Byddwn yn sicrhau na all neb weithio allan pwy ydych chi drwy'r adroddiadau y byddwn ni'n eu hysgrifennu. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'ch data yn cael ei ddefnyddio a'i storio ar gael yn RHAN DAU o'r daflen yma.

Os yw'r ymchwil hon o ddiddordeb ichi, darllenwch [RAN DAU](#) o'r daflen wybodaeth yma i gael rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth.

RHAN DAU

Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r astudiaeth?

Mae'r astudiaeth yn cael ei threfnu a'i noddi gan Brifysgol Birmingham a'i hariannu gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR). Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi ei gefnogaeth i'r astudiaeth.

Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth yma?

Mae'r holl ymchwil yn y GIG wedi'i hadolygu ac wedi sicrhau barn ffafriol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil annibynnol er mwyn amddiffyn eich diogelwch, eich hawliau, eich lles a'ch urddas. Mae'r astudiaeth yma wedi cael barn ffafriol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Gogledd yr Alban 2.

Sut mae cleifion a'r cyhoedd yn cymryd rhan yn yr astudiaeth yma?

Mae aelodau o'r cyhoedd yn eistedd ar y panel a adolygodd y treial a chytuno i'w ariannu. Rydym wedi ymgynghori â grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio'r astudiaeth. Bydd cyfranogiad cleifion a'r cyhoedd (PPI) yn parhau drwy gydol yr astudiaeth.

Beth os oes gen i gwestiynau?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr astudiaeth, gallwch weld gwefan yr astudiaeth neu gysylltu â'n hymchwilydd - mae'r manylion ar ddiwedd y daflen. Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion (PALS) yn yr ysbyty i gael cyngor annibynnol am gymryd rhan – gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen.

Beth os bydda i'n newid fy meddwl?

Mae eich penderfyniad i gymryd rhan yn yr ymchwil yma yn gwbl wirfoddol a gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd heb roi rheswm a heb i hynny effeithio ar eich gofal. Os ydych chi eisoes wedi rhoi'r cyfweiliad ac nad ydych am i'ch data gael ei ddefnyddio mwyach, cysylltwch â'r ymchwilydd o fewn 7 diwrnod er mwyn tynnu'ch cydsyniad i ddefnyddio'ch data yn ôl. Os na fyddwn wedi clywed gennych o fewn y cyfnod hwn, bydd data'r cyfweiliad yn dal i gael ei ddefnyddio yn nadansoddiad yr astudiaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau ymddiriedaeth a hyder yn y dulliau a ddefnyddir a chanfyddiadau'r ymchwil (uniondeb ymchwil).

Rhagor o wybodaeth am sut y caiff fy nata ei ddefnyddio

Pwy sy'n gyfrifol am fy nata i?

Fel Noddwr yr astudiaeth, Prifysgol Birmingham (UoB) yw'r rheolwr data ac mae ganddi rwmedigaeth gyfreithiol i gadw'ch data yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) er budd y cyhoedd. Bydd awdurdodau rheoleiddio yn cael gweld eich data i wirio bod yr astudiaeth yn cael ei chynnal yn gywir.

Sut bydd fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Mae gwybodaeth yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt, eich oedran, eich rhywedd, eich grŵp ethnig, eich cyfeiriadedd rhywiol, eich addysg a manylion am eich iechyd a gesglir ar yr holiadur sgrinio. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i sicrhau ein bod yn cynnwys ystod eang o bobl yn yr ymchwil. Yn y cyfweiliad, byddwn yn casglu'ch barn am ymgynoriadau mewn gwasanaethau atal cenhedlu ac iechyd rhywiol gan ddefnyddio'r wybodaeth yma at ymchwil yn unig. Ar ôl y cyfweiliad, ni fydd data a gesglir amdanoch yn cael ei gysylltu â'ch enw a rhoddir rhif adnabod unigryw i chi.

Sut bydd fy ngwybodaeth yn cael ei throsglwyddo?

Gyda'ch cydsyniad, caiff eich manylion cyswllt eu hanfon at ymchwilwyr yn UoB gan eich ysbyty lleol trwy ebost diogel y GIG. Bydd data'r cyfweiliad a gesglir gan ymchwilwyr Coleg Prifysgol Llundain (UCL) ac UoB yn cael ei drosglwyddo drwy ddefnyddio gweinyddion diogel (SharePoint a Data Safe Haven). Ni fydd trydydd partïon yn cael yr wybodaeth yma.

Sut bydd fy ngwybodaeth yn cael ei storio?

Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth amdanoch yn ddiogel. Bydd holl ddata'r astudiaeth a gesglir ar bapur yn cael ei gadw'n ddiogel, mewn ystafell dan glo ac o fewn cabinet dan glo sydd ar gael i'r tîm ymchwil yn UoB ac UCL yn unig lle mae'r ymchwilwyr wedi'u lleoli. Bydd ffeiliau cyfrifiadur yn cael eu storio mewn ffolderi a ddiogelir â chyfrinair ar gyfrifiaduron wedi'u hamgryptio a all gael eu cyrchu gan y timau ymchwil yn UoB ac UCL yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys ffurflenni cydsynio a holiaduron sgrinio a lenwyd yn electronig ar weinyddion diogel UoB, a recordiadau wedi'u teipio (trawsgrifiadau) o'ch cyfweiliad. Pan fydd recordiadau'r cyfweiliad wedi'u teipio (yn ddiennw), caiff y recordiad sain gwreiddiol ei ddileu.

Beth fydd yn digwydd i'm gwybodaeth pan fydd yr astudiaeth yn gorffen?

Ar ôl inni orffen yr astudiaeth, bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dileu ond byddwn yn cadw'ch data diennw fel y gellir ei ddefnyddio i ategu ymchwil yn y dyfodol. Bydd copi o'ch ffurflen gydsynio yn cael ei chadw am o leiaf 10 mlynedd. Byddwn yn ysgrifennu ein hadroddiadau mewn ffordd fel na all unrhyw un weithio allan eich bod wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth.

Beth yw fy newisiadau o ran sut mae fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Mae angen inni reoli'ch cofnodion mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn gallu gadael ichi weld neu newid y data sydd gennym amdanoch chi. Os byddwch yn newid eich meddwl o fewn 7 diwrnod ar ôl cael y cyfweiliad, gallwch gysylltu â'n hymchwilydd ac ni fydd eich data yn cael ei ddefnyddio a bydd yn cael ei ddileu.

Pwy alla i gysylltu â nhw i gael rhagor o wybodaeth?

- Yr ymchwilydd - gweler y Manylion Cyswllt ar ddiwedd y daflen yma.
- Swyddog Diogelu Data y noddwr dataprotection@contacts.bham.ac.uk.
- Ewch i www.hra.nhs.uk/information-about-patients/ (copi print ar gael ar gais).

Beth os oes gen i gwyn?

Os hoffech gwyno am unrhyw agwedd ar yr ymchwil, gallwch wneud hynny drwy'r Gwasanaeth Cyngori a Chyswllt i Gleifion (PALS) (gweler y Manylion Cyswllt). Os hoffech gwyno am sut mae ymchwilwyr wedi trin eich gwybodaeth, dylech gysylltu â'r tîm ymchwil. Os nad ydych yn fodlon wedyn, bydd yr ymchwilydd yn rhoi manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data ichi.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y daflen wybodaeth i gyfranogwyr.

MANYLION CYSWLLT

Manylion Cyswllt yr Ymchwilydd:

Ffôn: 0121 414 6486

Ebost: CONNECT-Study@contacts.bham.ac.uk

Gwefan yr astudiaeth: www.birmingham.ac.uk/connect-study

(Cyhoeddir ein canfyddiadau ar y wefan yma ar ôl cwblhau'r astudiaeth)

Uned Economeg Iechyd, Prifysgol Birmingham, Edgbaston, B15 2TT

Gwasanaethau Cymorth i Gleifion (adborth a chwynion)

Ffôn: 0300 0200 159

Ebost: hdhb.patientsupportservices@wales.nhs.uk

Os oes gennych bryderon am atal cenhedlu neu heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs) neu brofion gallwch weld rhagor o wybodaeth yn www.shwales.online neu cysylltwch â'ch clinig lleol ar 01267 248674.